

# Mathew

Oed:  
6 - 10

## Y doethion yn dod o hyd i Iesu

Stori o'r Beibl  
**Mathew 2:1-12**

Neges y stori  
**Dangos y ffordd at Iesu**

### Gweithgaredd

#### Sêr sbeis

Gwnewch addurniadau sêr i'n hatgoffa sut ddaeth y doethion a'r bugeiliaid o hyd i'r baban Iesu.

#### • Bydd angen


Clai brown hunan-galedu, papur gwrthsaim, cyllyll plastig, pensel, rhuban, platau papur, bagiau plastig ailseliadwy.

#### • Paratoi

Ymlaen llaw, tylinwch y clai hyd nes ei fod yn hyblyg ond nid yn rhy sych ac yna ei storio mewn bagiau plastig ailseliadwy (un i bob plentyn). Torrwch y rhuban bob yn 25cm o hyd (un ar gyfer pob plentyn). Gosodwch y deunyddiau allan fel bod gan bob plentyn ddarn o bapur gwrthsaim, cylllell plastig a darn o ruban.

#### • Cam-wrth-gam

1. Rholiwch y lwmp o glai yn belen a'i wasgu'n fflat ac yn llyfn i siâp cylch.
2. Gan ddefnyddio'r gyllell blastig, cynlluniwch a thorrwch siâp seren, gan symud y darnau diangen.
3. Defnyddiwch y bensel i osod twll ger pen ucha'r addurn. Gadewch i sychu ac yna'n ofalus, codwch y seren a gweithiwch y rhuban trwy'r twll. Gofynnwch i'r plant (neu helpu'r plant) 'sgwennu eu henwau ar blât papur. Gosodwch y seren ar y plât i'r plant fynd a nhw adref gyda nhw. Gadewch i'r seren sychu am ryw bum niwrnod cyn ei hongian.



### Neges y wers

Dewch â'r plant at ei gilydd. Adroddwch y stori yn Mathew 2:1-12 ac yna gofyn:

- Sut oedd y doethion yn gwybod sut i ddod o hyd i'r baban Iesu?
- Sut oedden nhw'n teimlo pan ddaethon nhw o hyd i Iesu?
- Meddyliwch am rai o'r ffyrdd y gallwn ni ddangos neu ddweud wrth eraill am Iesu.

Eglurwch fod y doethion wedi dilyn seren i ddod o hyd i Iesu. Roedden nhw'n gwybod ei fod yn bwysig gan eu bod yn astudio'r ysgrythurau oedd yn rhagweld ei fod yn dod. Fe roddodd Duw y Beibl i'n helpu i ddod o hyd i Iesu. Fe roddodd hefyd yr eglwys, athrawon, teulu a ffrindiau i ddangos a dweud wrthym am Iesu.